# Mesur Addysg (Cymru) 2011

**2011 mccc 7**

## RHAN 1

CYDLAFURIO GAN GYRFF ADDYSG

### 5 Pwerau cydlafurio

(1) Mae gan gorff addysg y pwerau yn is-adran (2) er mwyn cyflawni neu ei gwneud yn hwylus i gyflawni—

(a) ei ddyletswydd o dan adran 3,

(b) ei ddyletswydd o dan adran 33K o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000,

(c) ei ddyletswydd o dan adran 116J o Ddeddf Addysg 2002, neu

(d) dyletswydd corff addysg arall o dan y darpariaethau hynny.

(2) Y pwerau yw—

(a) darparu cymorth ariannol (p'un ai ar ffurf grant neu fenthyciad) i unrhyw berson;

(b) ymrwymo i drefniadau neu gytundebau ag unrhyw berson;

(c) cydweithredu â'r person hwnnw, neu hwyluso neu gydgysylltu ei weithgareddau;

(d) arfer (p'un ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd) unrhyw un neu rai o swyddogaethau unrhyw berson ar ran y person hwnnw;

(e) gwneud trefniadau i unrhyw un neu rai o swyddogaethau'r corff addysg gael ei gyflawni neu eu cyflawni gydag un neu ragor o gyrff addysg eraill, neu gan un neu ragor o gyrff addysg eraill;

(f) gwneud trefniadau i unrhyw un neu rai o swyddogaethau'r corff addysg gael ei gyflawni neu eu cyflawni gan gyd-bwyllgorau dau neu ragor o gyrff addysg;

(g) darparu staff, nwyddau, gwasanaethau neu lety i unrhyw berson;

(h) rhannu a defnyddio gwybodaeth er mwyn arfer unrhyw bwerau cydweithio.

(3) O ran y pwerau hyn—

(a) nid ydynt yn lleihau effaith unrhyw bwerau eraill corff addysg, a

(b) maent yn ddarostyngedig i ddarpariaeth a wneir o dan adran 6.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 16/11/2012. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Addysg (Cymru) 2011, Adran 5. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 5 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 33(2)**

**I2** A. 5 mewn grym ar 16.11.2012 gan O.S. 2012/2656, **ergl. 2**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 16/11/2012. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Addysg (Cymru) 2011, Adran 5.